**Swydd:** **CYDLYNYDD RHAGLENNU**

**Oriau :** **37 awr yr wythnos**
**Cyflog:** **£18,600 – £21,090**

**Adran:** **Rhaglennu**
**Yn atebol i:** **Cyfarwyddwr Artistig**

---

**Dyddiad cau:** **12:00 (hanner dydd) 25.11.19**
**Cyfweliadau:** **Yn ystod wythnos 02.12.19**
**I ddechrau:** **Cyn gynted â phosib**

---

**Am sgwrs bellach am y swydd hon, cysylltwch â:**

Nici Beech (Cyfarwyddwr Artistig)
01286 685 250 neu nici.beech@galericaernarfon.com

---

**Y Swydd:**
Mae Galeri Caernarfon yn chwilio am berson trefnus a chreadigol i gydlynu‵r gweithgareddau sydd yn ffurfio'i rhaglen artistig.

**Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:**

Cynorthwyo'r Cyfarwyddwr Artistig gyda gwaith swyddfa e.e ateb galwadau ffôn i mewn i'r swyddfa, cadw cofnodion, trefnu rhestr anghenion digwyddiadau ar gyfer cyfarfod gweithrediadau wythnosol traws-adrannol a mynychu'r cyfarfod hwnnw i adrodd gwybodaeth perthnasol a thrylwyr. Cysyltu gydag artstiaid, asiantau a chwmniau i gasglu a chandarnhau gwybodaeth am ddigwyddiadau.

Cydlynu rhaglen Sbarc Galeri gan gdyweithio gyda'r tiwtoriaid ac artistiaid eraill i gyflawni cyfleon artistig i bobl ifanc 5- 18 oed yn ystod tymor ysgol ac yn y gwyliau. Darparu a llunio dyddiadur gweithgareddau SBARC am bob tymor

Cydweithio ar raglen greadigol Galeri ynghyd a cheisiadau grant gyda'r Cyfarwyddwr Artistig a'r tîm rhaglennu.

Cydlynu prosiectau penodol megis gweithdai a chyrsiau creadigol gydag ymarferwyr llawrydd, cynnal partneriaethau, a chreu partneriaethau Newydd.

Cynrychioli'r Cyfarwyddwr Artistig mewn cyfarfodydd a digwyddiadau pan fydd angen ac mewn trafodaeth hefo'r Cwmni

Cynrychioli'r cwmni mewn cyfarfodydd a rhwydweithiau amrwyiol e.e. Rhwydwaith Celfyddydau Ieuenctid Cymru, Rhwydwaith Cyfuno Gwynedd.

Gweithio yn effeithiol fel unigolyn ac yn rhan o dim i sicrhau gweithrediad llyfn y Cwmni

Yn ogystal â'r swyddogaethau uchod disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus gyfrannu syniadau, datblygu, cyd-lynu a gweinyddu rhaglen o ddigwyddiadau eraill fel rhan o'r tîm artistig.

Swydd llawn amser yw hon. Gall yr oriau gwaith amrywio, ac mae gofyn i'r deiliad fedru gweithio gyda'r nosau ac ar benwythnosau pan fo angen.

**CYFFREDINOL**

**Manyldeb person**

Sgiliau trefnu ardderchog a'r gallu i weithio dan bwysau

Sgiliau gweinyddol a chyfrifiadurol o'r safon uchaf

Person sy'n angerddol am y celfyddydau a gweledigaeth Galeri

Profiad o reoli prosiectau celfyddydol a /neu cymunedol yn fanteisiol

Y gallu i gyfathrebu ac ymwneud â phobl yn gwrtais ac effeithiol ar bob lefel

Y gallu i farchnata a datblygu prosiectau

Y gallu i weithio yn rhan o dim, cefnogi cyd-weithwyr a hyrwyddo ysbryd da

Cyfathrebwr da sy'n gwrando ac yn gallu mynegi eu hunain yn glir yn y Gymraeg a'r Saesneg

Ymroddedig, dibynadwy ac hyblyg o ran oriau gwaith

Yn ddigon hyderus i gyfrannu syniadau

---

**Mae'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol a chlir yn y Gymraeg yn hanfodol i'r swydd hon.**

**This is an advertisement for an Artistic Coordinator where the ability to communicate effectively through the medium of Welsh is essential.**

---

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Cyngor Gwynedd Council

**galericaernarfon.com**
Twitter: @_Galeri_
Facebook: GaleriCaernarfon
Instagram: GaleriCaernarfon